

I'R PANT Y RHED Y DŴR

*gan Toni Schiavone
Addasiad gan olygydd Gwaith Maes*

Yn yr erthygl wreiddiol (Rhifyn 12) defnyddiwyd Afon Ceiriog i enghreifftio nodweddion afon. I hwyluso'r gwaith o ail-gyflwyno ar y we, defnyddiodd y golygydd Afon Lledr yn hytrach nag Afon Ceiriog oherwydd ei lleoliad mwy cyfleus i gymryd lluniau newydd.

MAP AROLWG ORDNANS

Landranger 125

Yr Wyddfa

GWEITHGAREDD 1 - Cyflwyniad i Afon Lledr

Lleoliad: mae Afon Lledr yn rhan o fasn draeniad (gweler isod)
Afon Conwy yng Ngwynedd.

- 1 Defnyddiwch atlas i ddod o hyd i leoliad yr afon.
- 2 Lluniwch fap syml i ddangos lleoliad y ddwy afon a rhai o brif afonydd eraill Cymru e.e. Dyfrdwy, Mawddach, Hafren, Taf a Theifi
- 3 Disgrifiwch leoliad Afon Lledr e.e. y tarddle, cyfeiriad y llif, trefi neu bentrefi ar hyd ei thaith/chwrs a'r cymer ag Afon Conwy
(gweler isod am y termau hyn ac am unrhyw rai eraill dieithr.)

Geirfa ddaearyddol dŵr (Defnyddiwch eiriadur yn ôl yr angen.)

Mae'r geiriau mewn cromfachau yn fwy tafodieithol ond yr un mor ddilys.

Tirffurfiau (nodweddion tirlun)

cwm, dyffryn, (ystrad)	ystum, ystumllyn	cymer, cydlif
afon, gwely _ , llif _ , cwrs _ , llwybr _	geirw (rapids) silt	dôl, gorlifdir cors, mign, siglen
rhaeadr, (sgwd, pistyll)	sianel	llyn
llechwedd, llethr, (tyle)	moryd	nant, ffrwd, llednant
tarddle, tardeddell, llygad	aber	ceunant
basn draeniad	gwahanfa ddŵr	


Gwaith afon – proses ac effaith

erydu	ystumio, dolennu
gorlifo	llifo
cludo, cario	dyddodi, gollwng
draenio	

Nodweddion dynol


cored
argae
cronfa (ddŵr)

BASN DRAENIAD – yr ardal sydd yn draenio'r dŵr glaw sydd yn syrthio i rwydwaith o nentydd ac afonydd ac yn cludo'r dŵr i lyn neu'r môr



Gall gwahanfa ddŵr fod yn hawdd ei chanfod fel crib neu gefnfen amlwg rhwng dau fasn draeniad e.e. Moel Drumman [cyfeirnod 672476] lle mae'r dŵr i'r gogledd yn rhan o fasn draeniad Afon Lledr tra mae'r dŵr i'r de yn cyfrannu at Afon Dwryd. Gall hefyd fod yn ddarn eang o dir dinodwedd lle mae llwybr y dŵr yn gymhleth ac yn anodd ei ddilyn (gweler yr enghraifft isod.)

Mae'r llun isod yn dangos Llynau'r Cŵn (A) [cyfeirnod 662487], Llyn Edno (B) [cyfeirnod 662497] a tharddle Afon Cwm Edno (C) [cyfeirnod 667 501]



Mae'r dŵr o Llynau'r Cŵn a Llyn Edno yn cyfrannu at Afon **Edno**, llednant o fewn basn draeniad Afon Glaslyn sydd â'i haber ym Mhorthmadog ac felly'n gwagio i Fae Ceredigion.

Mae Afon **Cwm Edno** yn tarddu o'r gors 150m i'r gogledd o Lyn Edno ac yn ymuno ag Afon Lledr sydd yn rhan o fasn draeniad Afon Conwy ac felly'n gwagio i Fae Lerpwl.

GWEITHGAREDD 2 - Dilyn yr Afon

MAP AROLWG ORDNANS

Landranger 115

Yr Wyddfa

Lluniau o rannau allweddol o daith Afon Lledr o'i tharddle i'w chymer ag Afon Conwy.



Tarddle – ucheldir garw, corsiog uwchben Blaenau Dolwyddelan
Cyfeirnod: 683494



Sianel yr afon ger Dolwyddelan
Cyfeirnod: 745526



Ystumiau ar un o lednentydd Afon Lledr. (Sylwch ar yr hen gorlannau.)
Cyfeirnod: 701492



Cymer Afon Lledr ac Afon Conwy.
Mae Afon Lledr yn llifo o'r dde.
Cyfeirnod: 798543

A Cymharwch y lluniau â'r map gan ystyried y pwyntiau canlynol:

- 1 Sianel yr afon – y "toriad" yn y tir a grëwyd ganddi, ei lled, cyfeiriad y llif, a phatrwm ei llwybr - troellog, ystumiog.
- 2 Y tir o gwmpas sianel yr afon ac uwchben llawr y dyffryn – uchder, ansawdd ac ongl y llechweddau, defnydd o'r tir.
- 3 Nodweddion dynol ardal yr afon – ffyrdd, aneddiadau, melinau dŵr

B Dewiswch afon yn eich hardal chi , defnyddiwch y map perthnasol a chymharwch y safleoedd â safleoedd cyffelyb Afon Lledr.

GWEITHGAREDD 3 - Arolwg o afon _____

Enw'r afon:	
Tarddle:	
Prif lednentydd:	
Cymer/aber:	
Nodweddion: i] tirffurfiau ii] dynol	
Llystyfiant ar y glannau	
Bywyd gwyllt (yn y dŵr ac yn ymyl)	
Defnydd o'r afon (heddiw ac yn y gorffennol)	
Effaith dyn	
Arsylwadau eraill	